# Rheoliadau Arholiadau

Gan yr Adran Arholiadau

# SUT RYDYM YN CYNNAL ARHOLIADAU YN Y COLEG

Byddwch yn derbyn amserlenni arholiadau gyda dyddiadau ac amseroedd ar gyfer eich arholiadau – cofiwch eich rhif ymgeisydd!

Does dim posib newid yr amseroedd a'r dyddiadau yma.




Cyrhaeddwch yn gynnar cyn eich arholiad. Bydd cofrestr presenoldeb yn cael ei gosod y tu allan i ystafell yr arholiad i chi gael gwybod pa rif desg i eistedd wrthi. Bydd y goruchwylydd yn eich galw chi i mewn pan fydd yn barod.

Arholiadau yn cychwyn –

Bore - 9.30 a.m.
Prynhawn – 1.30 p.m.

Os ydych  chi'n rhedeg yn hwyr, cysylltwch â'r Dderbynfa neu'r staff Arholiadau ar unwaith.




Mae angen bathodyn adnabod myfyriwr neu lun adnabod yn dangos eich enw cyfreithiol. Os byddwch yn anghofio eich bathodyn, gallwch brynu un arall yn y Llyfrgell.

# Electroneg

Rhaid diffodd ffonau symudol a'u cyflwyno i'r goruchwylydd. Bydd y goruchwylydd yn rhoi cyfarwyddiadau ynghylch lle mae'n rhaid cadw ffonau.

**<u>Peidiwch â'i gadw yn eich poced nac ar eich desg.</u>**

Rhaid i bob oriawr glyfar gael eu diffodd a'u cyflwyno hefyd.

**<u>Ni chaniateir unrhyw oriawr yn yr ystafell arholiad.</u>**



No watches



Switch off and hand in mobile phones



**Remember black pens**

Cofiwch feiros du



**Remove labels from drink bottles**

Tynnwch labeli o boteli diodydd



**Clear pencil cases only**

Casys pensiliau clir yn unig



**No headphones**

Dim clustffonau



**No hats or hoodies**

Dim hetiau na hwdis

# Camymddwyn

- Ni ddylid defnyddio ffonau symudol, iPods, chwaraewyr MP3, oriawr glyfar a rhaid eu diffodd.
- Dim nodiadau i'w cludo i mewn i'r arholiad.
- Dim cyfathrebu â myfyrwyr eraill yn ystod yr arholiad.
- Mae'r goruchwylydd yno i helpu

Mae camymddwyn yn destun cosbau a gallwch gael eich datgan yn anghymwys.

# Sut gallwn ni helpu?

- Mae'r goruchwylwyr yno i sicrhau bod pawb yn cadw at reoliadau'r arholiadau ac i sicrhau eich lles yn ystod yr arholiad.
- Os oes arnoch angen cymorth, peidiwch â bod ofn gofyn! (fel papur ychwanegol, papur ysgrifennu, egwyl i fynd i'r toiled) – os oes arnoch angen egwyl i fynd i'r toiled, rhaid i aelod o staff eich tywys.
- Os oes gennych chi drefniadau mynediad, dylai'r rhain fod yn eu lle ar eich cyfer. Gwiriwch cyn diwrnod yr arholiad gyda'ch tiwtor neu'r Adran Cefnogi Myfyrwyr.
- Os ydych chi'n teimlo bod arnoch angen cymorth arall, gofynnwch i'r Tîm Arholiadau am gyngor – os nad oes arnoch angen eich trefniadau mynediad mwyach, rhowch wybod i ni

# UNRHYW GWESTIYNAU?

Tîm Arholiadau –

Unrhyw gwestiynau e-bostiwch:-
exams@nptcgroup.ac.uk

Campws Castell-nedd -Nicola Jones, Natalie Sambrook, Rhian Hawkes, Sian Mainwaring, Asa Webber

Campws Afan – Andrea-Lee Davies

Campws Aberhonddu – Danielle Richards

Campws Y Drenewydd – Sara Morgan, Gill Abel